

Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 20 MEHEFIN 2018, ym Mhrif Neuadd yr Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Yn bresennol: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (Cadeirydd); Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Yr Athro Judy Broady-Preston, Cyfarwyddwr Athrofa Datblygu Proffesiynol; Yr Athro Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS; Yr Athro Qiang Shen, Cyfarwyddwr AMFfC; Yr Athro Tim Woods, Cyfarwyddwr ACD; Dr Hywel Griffiths, Dirprwy Gadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion; Dr Gordon Allison; Dr Guy Baron; Yr Athro Richard Beardsworth; Yr Athro Paul Brewer; Dr Hazel Davey; Dr Gwion Evans; Dr Chris Finlayson; Mr Nigel Hardy; Dr David Ceri Jones; Dr Louise Marshall; Dr Ola Olusanya; Dr Maria Plotnikova; Dr Rachel Rahman; Yr Athro Malcolm Thomas; Mrs Anne Uruska; Mr Tim Davies (tan gofnod 72); Ms Louise Jagger; Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu'r Undeb, UMABer; a Mr Gwion Llwyd Williams, Lywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Miss Anna Jones Darpar Lywydd UMCA.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr ADHGS; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Dr Anwen Jones; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Yr Athro Robert Meyrick; Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) a Ms Emma Williams, Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion.

63. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Anna Jones, Darpar-Lywydd UMCA, a oedd yn bresennol yn rhan o'r drefn sefydlu. Bydd yn dechrau yn y swydd ar 01 Gorffennaf 2018.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Harold Carter, cyn-Bennaeth yr Adran Daeryddiaeth;
2. Geraint John, cyn aelod o staff yr Adran Gerddoriaeth;
3. Emrys Wynn Jones, cyn Gofrestrydd ac Ysgrifennydd y Brifysgol;
4. Lisa Siân Jones, myfyriwr yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru;
5. Non Lavarro, Rheolwr Datblygu Busnes i Athrofa Busnes a'r Gyfraith; a
6. Yr Athro Lyndon Rogers, a fu'n athro yn yr Adran Biocemeg ac yn nes ymlaen Sefydliad y Gwyddorau Biolegol.

3. Llongyfarchion

Llongyfarchwyd yr Athro Ken Booth o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ar gael ei gydnabod gan Gymdeithas Astudiaethau Rhyngwladol Prydain â Gwobr Cyfraniad Nodedig yng nghynhadledd flynyddol y Gymdeithas yn ddiweddar.

64. **GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

65. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 07 Mawrth a 18 Ebrill 2018 (SEN1718-071).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

66. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1718-072).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

67. **GOHEBIAETH**

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

68. **ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1718-073).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cynnwys tair prif adran : adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad manwl ar ddenu a chofrestru myfyrwyr, a ffactorau allanol pwysig; a chrynodeb o gyfathrebiadau diweddar.
2. Roedd Pwyllgor y Cyngor a sefydlwyd i ystyried y cynnig terfynol ynglŷn ag ad-drefnu'r Brifysgol wedi cyfarfod yr wythnos flaenorol. Cyflwynodd yr Is-Ganghellor grynodeb o'r prif newidiadau a wnaed yn y cynnig terfynol mewn ymateb i'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad. Cafodd y rhai yr oedd eu swyddi mewn perygl eu hysbysu'n ffurfiol am benderfyniad y Pwyllgor ac roedd y drefn i benodi i swyddi newydd eisoes ar droed.
3. Cafodd rhestr fer o ymgeiswyr eu cyfweld gan y Pwyllgor Enwebiadau ar 24 Mai 2018 ar gyfer penodi Aelodau Annibynnol ar y Cyngor. Ar argymhelliad y Pwyllgor, penododd y Cyngor dri Aelod Annibynnol newydd, a byddai eu tymhorau ar y corff llywodraethu yn dechrau ar 01 Awst 2018. Byddai manylion yr aelodau newydd yn cael eu

cylchredeg i aelodau'r Senedd er gwybodaeth (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

69. CYNLLUN STRATEGOL 2018-2023 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio; a Phennaeth Datblygu Strategol (SEN1718-074).

NODWYD

1. Ar 23 Mawrth 2018, cytunodd y Cyngor ar 12 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol - 10 ohonynt yn gysylltiedig â gweithgareddau nad oeddent yn ariannol. Erbyn hyn, datblygwyd targedau ar gyfer y 10 dangosydd hynny. Roedd y rhain wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.
2. Byddai cyfres bellach o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol manylach yn cael eu monitro gan Weithrediaeth y Brifysgol yng nghyswllt y Cynllun Strategol ac is-strategaethau sydd ar y gweill, yn ogystal ag agweddau mwy gweithrediadol y Brifysgol. Byddai'r rhain yn cael eu rhannu yn yr amserlen o sesiynau 'rhannu syniadau' thematig sy'n cael ei datblygu ar gyfer y corff llywodraethu.
3. Cafodd y gwerthoedd arfaethedig eu hystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 15 Mehefin 2018, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor eu cymeradwyo, yn amodol ar un newid bach.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r gwerthoedd targed arfaethedig i'w cymeradwyo gan y Cyngor (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

70. ARGYMHELLION O'R BWRDD ACADEMAIDD

1. Rheoliadau Cyrsiau Uwchraddedig a Ddysgir

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd (SEN1718-075).

NODWYD

1. Ar 23 Mai 2018, roedd y Bwrdd Academaidd wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r diwygiadau a gynigir i Reoliadau Cyrsiau Uwchraddedig a Ddysgir. Roedd hyn yn dilyn y trywydd a roddwyd gan y Senedd yn ystod y cyfarfod ym mis Mawrth 2018 wrth ystyried fersiwn gyntaf y diwygiadau arfaethedig.
2. Cytunodd y Bwrdd Academaidd i argymhell i'r Senedd y dylai myfyrwyr Meistr amser llawn ar gynllun dwy flynedd gael uchafswm o bedair blynedd i gwblhau eu gradd; ac na ddylid rhoi mwy na saith mlynedd i ymgeiswyr Dysgu o Bell i gwblhau gradd.
3. Yn yr un modd ag a wneir yn achos myfyrwyr eraill, gellid caniatáu estyniadau i'r cyfnodau hyn gan y Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb sefydliadol am ddysgu ac addysgu, yn seiliedig ar amgylchiadau personol eithriadol.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r terfynau amser a gynigiwyd ar gyfer cynlluniau Meistr dwy flynedd, a dyfarniadau dysgu o bell, i fyfyrwyr yn dechrau ym mis Medi 2018 (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion).

2. Strategaeth Dysgu ac Addysgu

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd, yn cynnwys drafft y Strategaeth Dysgu ac Addysgu (SEN1718-076).

NODWYD

1. Ar 23 Mai 2018, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried drafft y Strategaeth Dysgu ac Addysgu, ac wedi argymhell y dylid cyflwyno copi i'r Senedd er mwyn cael eu sylwadau. Datblygwyd y drafft mewn ymgynghoriad â staff academaidd, a chyn Swyddog Materion Academaidd Undeb y Myfyrwyr.
2. Trafododd yr aelodau'r drafft, a gofyn a ddylid diwygio'r adran ar gyfleoedd i astudio dramor, er mwyn cael gwell rheolaeth ar ddisgwyliadau o ran nifer y lleoliadau yr oedd y Brifysgol mewn sefyllfa i'w cynnig.
3. Byddai fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Academaidd yn ystod cylch yr hydref o gyfarfodydd, ac yn dilyn hynny byddai'n dod gerbron y Senedd i'w gymeradwyo (**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol)).

3. Ymddygiad Academaidd Annerbyniol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd (SEN1718-077).

NODWYD

Ar 23 Mai 2018, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried diwygiadau a gynigiwyd i'r Rheoliad ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yng nghyswllt dyfeisiau electronig. Argymhellodd aelodau'r Bwrdd y dylai'r Senedd gymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i'r Rheoliad ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol i ddod i rym ar unwaith (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion).

4. Rheoliadau PhD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd (SEN1718-078).

NODWYD

1. Ar 23 Mai 2018, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried cynnig y Pwyllgor Graddau Ymchwil i ddiwygio'r Rheoliadau Ymchwil Uwchraddedig i hwyluso astudio am PhD wrth wneud gwaith ymchwil amser llawn mewn man gwaith allanol. Argymhellodd aelodau'r Bwrdd y dylai'r Senedd gymeradwyo'r diwygiadau.
2. Byddai'r diwygiadau'n sicrhau bod y Brifysgol a'r cyflogwr yn rhoi cefnogaeth briodol i ymgeisydd, gan gynnwys darpariaeth i ddatblygu'r sgiliau ymchwil angenrheidiol heb ddod i sesiynau hyfforddiant ymchwil yn y Brifysgol.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i Reoliadau Gradd PhD, i ddod i rym ar unwaith (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion).
5. Copi Cwrs Gwag

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth (SEN1718-079).

NODWYD

1. Ar 07 Mawrth 2018, roedd y Senedd wedi cytuno mewn egwyddor bod angen cysondeb ar draws y modiwlau ar Blackboard, ac wedi gofyn i gyfres o gyfarfodydd gael eu cynnal â chydweithwyr academaidd ynglŷn â fframwaith diwygiedig i'r modiwlau.
2. Trefnwyd nifer o gyfarfodydd ers hynny, gan gynnwys sesiwn gyda rhanddeiliaid allweddol ar 09 Mai 2018. Cafodd y cynigion eu trafod hefyd yng nghyfarfod y Grŵp Cyfoethogi Dysgu trwy Dechnoleg a gynhaliwyd ar 17 Mai 2018. Adroddwyd bod rhai academyddion yn teimlo nad oedd y cyfarfodydd wedi'u cynnal yn y dull yr oeddent wedi'i ddisgwyl o'r hyn a ddywedwyd wrthynt.
3. Yng ngoleuni adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cynigiwyd cyflwyno copi cwrs gwag fesul cam dros ddwy flynedd, gan ddechrau â lefelau israddedig 0 ac 1 a ddysgir ar y campws yn ystod 2018.
4. Cydnabu'r aelodau y byddai'n rhesymol cael fframwaith cyson i'r cyrsiau ar Blackboard. Ond, codwyd rhai pryderon y byddai cyflwyno fframwaith rhy gaeth yn llesteirio creadigrwydd. Cadarnhawyd er y byddai patrwm craidd yn cael ei greu, y byddai gan adrannau'r dewis o ychwanegu at y patrwm hwnnw.
5. Mynegwyd pryder hefyd am y gwaith ychwanegol y byddai ail-greu cyrsiau gan ddefnyddio patrwm safonol yn ei achosi, yn enwedig felly cwisiau y byddai'n rhaid eu hychwanegu â llaw. Oherwydd hynny, croesawyd y ffaith y byddai patrwm newydd yn cael ei gyflwyno dros ddwy flynedd.
6. Trafodwyd anghenion y Brifysgol o ran meddalwedd rheoli dysgu yn y dyfodol. Cydnabuwyd y byddai cyflwyno cysondeb i fframwaith cyrsiau ar Blackboard yn hwyluso trosglwyddo i unrhyw lwyfan meddalwedd arall yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

7. Cymeradwyo'r cynigion fel y cawsant eu hamlinellu yn yr adroddiad, a chyflwyno copi cwrs gwag fesul cam (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth).
8. Y dylid darparu cymorth i'r rhai y mae eu cyrsiau ar Blackboard eisoes yn cydymffurfio'n fras â'r patrymau newydd arfaethedig, fel y gallant symud llwyth o gynnwys ar yr un pryd heb lawer o anhawster yn ogystal â symud cwisiau (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth).
6. Trosglwyddo marciau o sefydliadau eraill

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd (SEN1718-091).

NODWYD

1. Ar 23 Mai 2018, rhoddod y Bwrdd Academaidd ystyriaeth bellach i gytundeb y Senedd mewn egwyddor ym mis Mawrth 2017 i roi'r gorau i drosglwyddo marciau o raglenni cyfnewid myfyrwyr, a'r arweiniad pellach ym mis Mehefin 2017 y câi hyn ei weithredu yn achos unrhyw farciau o sefydliadau eraill. Yr unig eithriadau a ganiateid fyddai trefniadau cwbl gydweithrediadol a fyddai'n cynnwys cael darlun ffurfiol o'r raddfa farcio, a fyddai'n cael eu hadolygu'n gyson a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Darpariaeth Cydweithrediadol a Rhyngwladol i'w cymeradwyo.
2. Nodai'r adroddiad yr ystyriaethau allweddol er mwyn i'r cyfyngiad ar drosglwyddo marciau gael ei gyflwyno'n raddol a'i weithredu yn achos israddedigion ac uwchraddedigion newydd o fis Medi 2018 ymlaen.
3. Roedd y Bwrdd Academaidd hefyd wedi ystyried drafft o gonfensiynau arholiadau ar gyfer pennu dosbarthiad gradd sy'n cynnwys credyd o sefydliadau eraill, i'w gynnwys yn y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd. Cafodd y rhain eu hargymhell i'w cymeradwyo gan y Senedd.
4. Byddai angen rhagor o waith yn awr i greu darlun o effaith y newidiadau ar y drefn raeadru, a byddai'r adrannau academaidd yn cael eu gwahodd i roi sylwadau ar y mater.

PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i'r Llawlyfr Sicrhau Ansawdd (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion).

71. SIARTER Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-080).

NODWYD

1. Rhaid i bob sefydliad dan nawdd CCAUC gael Siarter Myfyrwyr, sy'n ddogfen lefel uchel yn cwmpasu'r holl fyfyrwyr a staff. Ers cymeradwyo Siarter Myfyrwyr y Brifysgol am 2017-18, roedd y Cyngor Cyllido wedi argraffu cyfarwyddiadau diwygiedig ynglŷn â chynnwys y Siarteri.
2. Roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); Ysgrifennydd y Brifysgol; Swyddog Datblygu Undeb y Myfyrwyr; a Phrif Swyddog Gweithredol Undeb y Myfyrwyr wedi cyfarfod i adolygu'r Siarter yng ngoleuni'r canllawiau diwygiedig, ac roedd nifer o newidiadau'n cael eu cynnig yn yr adroddiad. O flwyddyn academaidd 2018-19 ymlaen, y bwriad yw mai gweddalen fyddai ffurf Siarter y Myfyrwyr.
3. Roedd rhai o aelodau'r Senedd nad oeddent yn gallu bod yn bresennol wedi cyflwyno adborth ar y newidiadau arfaethedig cyn y cyfarfod. Roedd yr adborth yn cynnwys awgrym y dylid defnyddio'r testun sydd yng Nghynllun Strategol 2018-23 yng nghyswllt y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Siarter y Myfyrwyr.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i Siarter y Myfyrwyr, yn amodol ar gynnwys geiriad addas o Gynllun Strategol 2018-23 yng nghyswllt y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

72. MATERION LLYWODRAETHU

1. Ad-drefnu Pwyllgorau'r Brifysgol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-081).

NODWYD

1. Ar 23 Mawrth 2018, roedd y Cyngor wedi gwahodd Gweithrediaeth y Brifysgol i baratoi cynigion ar gyfer rhesymoli fframwaith yr is-bwyllgorau, yn unol â'r cyfeiriad strategol newydd. Roedd Ysgrifennydd y Brifysgol felly wedi gwneud arolwg manwl o'r Cyngor a'i is-bwyllgorau; y Senedd a'i is-bwyllgorau academiaidd; a Gweithrediaeth y Brifysgol. Wrth wneud hyn, roedd wedi gofyn barn cydweithwyr ar Weithrediaeth y Brifysgol. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r newidiadau a argymhellir i fframwaith pwyllgorau'r Brifysgol.
2. Roedd y Cyngor wedi ystyried fersiwn o'r adroddiad ar 18 Mai 2018 lle cytunodd yr aelodau ar y cynigion mewn egwyddor. Roedd gwaith yn awr ar droed i ddatblygu cylchoedd gorchwyl i'r chwe is-bwyllgor newydd neu ddiwygiedig a fyddai yn y dyfodol yn adrodd i'r corff llywodraethu.
3. Yng nghyswllt y Senedd a'i his-bwyllgorau, gan y Bwrdd Academiaidd y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol ar hyn o bryd am Rannau A, B, ac C o God Ansawdd y DU, ac mae pob is-bwyllgor yn cymryd cyfrifoldeb am adrannau penodol. O dan y newidiadau a gynigir, byddai'r Senedd yn cymryd y cyfrifoldeb cyffredinol, a byddai rhai o'r is-bwyllgorau cyfredol yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd. Byddai hyn yn rhoi i'r Senedd fwy o arolygaeth ar y materion academiaidd sydd ar hyn o bryd yn cael eu hadrodd trwy'r Bwrdd Academiaidd.
4. Croesawodd yr aelodau'r cynigion y dylai Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd yn y dyfodol. Ond, pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod y Paneli Moeseg Ymchwil yn cael eu cadeirio gan ryw un heblaw cadeirydd y Pwyllgor Moeseg, er mwyn cydymffurfio ag arferion gorau.
5. O dan y fframwaith diwygiedig, byddai'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb llywodraethol uniongyrchol am gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â materion yn gysylltiedig â'r Gymraeg. O ganlyniad, byddai Gweithrediaeth y Brifysgol yn fwy rhagweithiol yn dwyn y gweithgareddau hyn ynghyd yn y sefydliad, a byddai rhai pwyllgorau a fu'n adrodd i'r Cyngor ar yr agweddau hyn yn adrodd i'r Weithrediaeth yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

6. Cymeradwyo'r ad-drefnu arfaethedig ar bwyllgorau'r Brifysgol mewn egwyddor a gofyn am adroddiad pellach yn nodi (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol):
 1. union gylch gorchwyl pob pwyllgor a fydd yn adrodd i'r Senedd yn y dyfodol;
 2. aelodaeth arfaethedig y pwyllgorau newydd a/neu ddiwygiedig.

2. Diwygiadau i Ordinhadau

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-082); a
2. Adroddiad pellach gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-092).

NODWYD

3. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 23 Mawrth 2018 i ddeisebu'r Cyfrin Gyngor yn ffurfiol am gael diwygio elfennau o Siarter ac Ystatudau'r sefydliad, roedd y Pwyllgor Siarter wedi gwneud adolygiad manwl o Ordinhadau'r Brifysgol i nodi unrhyw ddiwygiadau dilynol y byddai eu hangen. Roedd y prif adroddiad felly'n nodi'r diwygiadau arfaethedig i'r Ordinhadau hynny sy'n gysylltiedig â materion academaidd yr oedd angen i'r Senedd eu hystyried a'u cymeradwyo, i'w cadarnhau'n derfynol gan y Cyngor.
4. Ers cylchredeg y prif adroddiad i aelodau'r Senedd, drafftwyd diwygiadau i Ordinhadau ychwanegol i ymateb i'r cynnig terfynol i ad-drefnu'r Brifysgol. Roedd y diwygiadau yn yr ail adroddiad yn cynnwys rhai yn gysylltiedig ag aelodaeth o'r Senedd a phrosesau ethol cynrychiolwyr ar y corff, yn ogystal â'r newidiadau angenrheidiol i gadarnhau'n ffurfiol y fframwaith Cyfadranol newydd. Nododd yr aelodau'n benodol y byddai Rheoli Gwybodaeth, Llyfrgelloedd ac Archifau (iMLA) yn cael ei adfer i fod yn adran academaidd yn y fframwaith newydd.

PENDERFYNWYD

5. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i'r Ordinhadau fel y nodwyd yn y ddau adroddiad, yn amodol ar roi eglurhad am y geiriad yng nghyswllt gweithwyr nad oedd ganddynt statws academaidd (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

73. CYNNYDD YNGHYLCH ARGYMHELLION THE KNOWLEDGE PARTNERSHIP

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1718-083).

NODWYD

1. Cyflogwyd y cwmni ymgynghori allanol, The Knowledge Partnership, i wneud arolwg portffolio fesul Athrofa o raglenni israddedig ac uwchraddedig 2015-16. Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Cynllunio'n crynhoi'r camau a gymerwyd ynglŷn â rhaglenni penodol o ganlyniad i argymhellion y cwmni.
2. Cafodd yr adroddiad ei ystyried yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 15 Mehefin 2018, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylid ei gyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth.
3. Tynnodd yr aelodau sylw at nifer o elfennau anghywir yn yr adroddiad. Câi'r rhain eu cywiro cyn cylchredeg yr adroddiad ymhellach (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cynllunio).

74. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN1718-084);
2. Adroddiad Blyneddol ar Weithgaredd Cydweithrediadol (SEN1718-085);
3. Grantiau ymchwil a ddyfarnwyd ers cyfarfod diwethaf y Senedd (SEN1718-086); a
4. Crynodeb o Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN1718-087).

NODWYD

5. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

75. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (SEN1718-088):

1. Y Bwrdd Academaidd (23 Mai 2018);
2. Y Cyngor (23 Mawrth a 18 Mai 2018);
3. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (27 Ebrill 2018);
4. Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb (09 Chwefror ac 08 Mehefin 2018);
5. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (09 Mawrth 2018);
6. Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg (27 Hydref 2017); a
7. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (26 Hydref 2017 a 15 Chwefror 2018)

NODWYD

8. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.

76. UNRHYW FATER ARALL

1. Pen-blwydd yn 150

Yn 2022, byddai'r Brifysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn 150. Bwriadai'r Is-Ganghellor gynnig sefydlu gweithgor ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Senedd i arolygu'r trefniadau, a byddai'n dod ag argymhelliad ynglŷn â hyn gerbron yn ystod yr hydref 2018 (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).

2. Ffarwelio

1. Byddai Gwion Llwyd Williams yn dod ben ei gyfnod yn Llywydd UMCA ar 30 Mehefin 2018. Hwn felly fu ei gyfarfod olaf o'r Senedd. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad i'r corff ac i'r Brifysgol dros y flwyddyn ddiwethaf, a dymunwyd yn dda iddo.
2. Byddai Lucy Hodson yn gadael ei swydd yn y Brifysgol ar 20 Gorffennaf 2018. Diolchwyd iddi hithau am ei chyfraniad i waith y Senedd fel Cyfarwyddwr Cynllunio yn y blynyddoedd diweddar, ac am ei chyfraniad sylweddol tuag at wella'r ddarpariaeth cynllunio strategol yn y sefydliad.
3. Roedd yr argymhelliad i'r Cyngor yng nghyswllt aelodaeth y Senedd yn y dyfodol, fel y nodwyd yn Ordinhad 18, yn golygu mai hwn fyddai cyfarfod olaf Anne Uruska ar y Senedd. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad yn gynrychiolydd i'r Athrofa Datblygu Proffesiynol dros y flwyddyn ddiwethaf.